❖ Adnodau'r Adfent

Mae'r paratoadau ar gyfer y Nadolig yn dechrau gyda Duw yn dewis merch ifanc gyffredin:

Yn y chweched mis anfonwyd yr angel Gabriel gan Dduw i dref yng Ngalilea o'r enw Nasareth, at wyryf oedd wedi ei dyweddïo i ŵr o'r enw Joseff, o dŷ Dafydd; Mair oedd enw'r wyryf.

Luc 1:26–27

Grym ysbryd Duw ei hun oedd yn gyfrifol am y wyrth:

Atebodd yr angel hi, "Daw'r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi; am hynny, gelwir y plentyn a genhedlir yn sanctaidd, Mab Duw."

Luc 1:35

Mae'r proffwyd yn disgwyl yn eiddgar am 'ein Duw ni':

Yn y dydd hwnnw fe ddywedir,
"Wele, dyma ein Duw ni.
Buom yn disgwyl amdano i'n gwaredu;
dyma'r ARGLWYDD y buom yn disgwyl amdano,
gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth."

Eseia 25:9

Gweledigaeth fawr yr Ail Eseia yw paratoi'r genedl ar gyfer dyfodiad y Meseia:

Llais un yn galw,
"Paratowch yn yr anialwch ffordd yr ARGLWYDD,
unionwch yn y diffeithwch briffordd i'n Duw ni."

Eseia 40:3

Mae dyddiau digofaint yn mynd heibio a bydd y dyfodol yn llaw bachgen a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd ef:

Canys bachgen a aned i ni,
mab a roed i ni,
a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.
Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn,
Tad bythol, Tywysog heddychlon".

Eseia 9:6

Mae'r proffwyd yn gweld dydd barn yn agosáu pan fydd yn anfon ei gennad i baratoi'r ffordd:

"Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o'm blaen; ac yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i'w deml; y mae cennad y cyfamod yr ydych yn hoff ohono yn dod," medd ARGLWYDD y Lluoedd.

Malachi 3:1